

Eich cyf / Your ref:	Gofynner am / Please ask for:	Gareth Morgans
Fy nghyf / My ref:	Llinell Uniongyrchol / Direct Line:	01267 246522
Dyddiad / Date: 20-03-20	E-bost / E-mail:	EDGMorgans@sirgar.gov.uk

Annwyl Bennaeth,

Rhaid cydnabod ei bod hi'n gyfnod heriol iawn i ni fel gwasanaeth addysg a'n bod yn gorfod ymateb i faterion nad ydym wedi eu hwynebu o'r blaen ar frys. Mae angen i ni gyd wneud popeth yn ein gallu i leihau lledaeniad y firws COVID-19 ymysg trigolion Sir Gâr a'n cymunedau. Hoffwn ddiolch i bawb am eich cymorth a'ch syniadau adeiladol ac am fod mor barod i gefnogi'r '*pwrpas newydd*' ar gyfer ysgolion.

Mae'r cyngor diweddaraf gan Llywodraeth Cymru a lechyd Cyhoeddus Cymru yn glir sef cyn belled ag y bo modd, dylid lleihau cysylltiad cymdeithasol. Mae hyn yn golygu os y gall plant aros yn ddiogel yn eu cartrefi, er mwyn cyfyngu ar y siawns y bydd y firws yn lledu, fe ddylent wneud hynny.

Mae angen felly i ni leihau nifer y plant sy'n teithio i'r ysgol neu leoliad gofal plant, gan gadw i'r lleiafswm posibl nifer y plant mewn lleoliadau addysgol, gofal plant a lleoliadau chwarae. Po leiaf yw'r niferoedd, po fwyaf y gallwn leihau'r risg y gall y firws ledaenu a heintio pobl agored i niwed ar draws ein cymunedau.

Mae hyn yn golygu bod angen i ni gynghori rhieni i gadw eu plant gartref, lle bynnag y bo modd, a dylai ysgolion, lleoliadau gofal plant a chwarae fod ar agor i'r plant hynny lle nad oes ganddynt ddewis arall. Yn syml iawn, po leiaf o bobl sy'n cael cyswllt cymdeithasol, y mwyaf effeithiol fydd effaith y mesurau presennol.

O'r wythnos nesaf, bydd ysgolion ar gau i blant a phobl ifanc ac eithrio i ddarparu y gofal hollbwysig i blant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed sydd heb unrhyw opsiwn arall.

Er mwyn sicrhau system sy'n deg, system sy'n gynaliadwy a gwydn a system sy'n diogelu ein staff, plant a phobl ifanc penderfynwyd cynllunio hyn yn strategol ar lefel sirol. Ar bwrpas penderfynwyd dechrau'n fach gan ddysgu o'r profiad ac adeiladu ar y ddarpariaeth wrth i ni ddeall y galw a'r gofynion o ran gweithredu'n canolfannau newydd yn ddiogel.

O ddydd Llun, Mawrth 23ain, bydd **tair canolfan** yn weithredol yn Sir Gaeryrddin yn darparu gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol y Cyngor Sir yn y lle cyntaf (Gweler Atodiad 1) -

- Ardal Llanelli- Ysgol Penrhos
- Ardal Rhydaman- Ysgol Bro Banw
- Ardal Caerfyrddin- Ysgol y Dderwen

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Neuadd y Sir, Gaerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services, County Hall, Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Y bwriad yw monitro'r rhain yn agos ac yna agor **wyth canolfan** arall ar ddydd Mercher, Mawrth 25ain yn y lleoliadau canlynol-

- Ardal Porth Tywyn- Ysgol Gynradd Port Tywyn
- Ardal Llanelli- Ysgol Gynradd y Felin
- Ardal Caerfyrddin- Ysgol Gynradd Johnstown,
- Ardal Castell Newydd Emlyn- Ysgol Gynradd y Ddwylan
- Ardal San Clêr- Ysgol Gynradd Griffith Jones,
- Ardal Llandeilo- Ysgol Gynradd Llandeilo
- Ardal Llanymddyfri- Ysgol Gynradd Rhys Prichard
- Ardal Brynaman- Ysgol Brynaman
- *Posibilrwydd o ganolfannau pellach*

Byddwn yn monitro'r galw ac os oes yr angen, a bod gennym gyflenwad addas o staff, byddwn yn sefydlu rhagor o ganolfannau ar ôl dydd Mercher.

Pe byddem wedi cael mwy o amser, byddem wedi gallu cynllunio hyn yn fanylach a'i dreialu. Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r mater o ddarparu prydu ysgol am ddim tra bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull gweithredu cenedlaethol.

I gloi, ailadroddaf neges glir Llywodraeth Cymru-

... mae angen i rieni gadw eu plant gartref, lle bynnag y bo modd, a dylai ysgolion a gofal plant a lleoliadau chwarae fod ar agor dim ond i'r plant hynny y mae'n rhaid iddynt fynychu... Mae hyn yn golygu y dylem barhau i ddarparu gofal i nifer mor fach o blant â phosibl- plant sy'n agored i niwed a phlant y mae eu rhieni yn hanfodol i ymateb covid-19 ac na ellir gofalu amdanynt yn ddiogel gartref.

Caiff y trefniadau yn y llythyr hwn eu monitro a'u diwygio fel y bydd amgylchiadau'n datblygu, sydd, fel y gwerthfawrogwch, yn digwydd yn sydyn. Seilir y trefniadau yn y llythyr hwn ar y cyngor diweddaraf gan Lywodraethau'r DU a Chymru ac ar drafodaethau ar draws y Cyngor.

Yn ddiffuant,



Cyngor Llywodraeth Cymru- <https://gov.wales/education-coronavirus>

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Neuadd y Sir, Gaerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services, County Hall, Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Atodiad 1

If your work is critical to the COVID-19 response, or you work in one of the critical sectors listed below, you should attempt to make arrangements for your child to be safely cared for at home. Only where there is no safe alternative should provision be made in schools or other settings.

Health and social care - this includes but is not limited to doctors, nurses, midwives, paramedics, social workers, care workers, and other frontline health and social care staff including volunteers; the support and specialist staff required to maintain the UK's health and social care sector; those working as part of the health and social care supply chain, including producers and distributors of medicines and medical and personal protective equipment.

Education and childcare - this includes nursery and teaching staff, social workers and those specialist education professionals who must remain active during the COVID-19 response to deliver this approach.

Key public services - this includes those essential to the running of the justice system, religious staff, charities and workers delivering key frontline services, those responsible for the management of the deceased, and journalists and broadcasters who are providing public service broadcasting.

Local and national government - this only includes those administrative occupations essential to the effective delivery of the COVID-19 response or delivering essential public services such as the payment of benefits, including in government agencies and arms length bodies.

Food and other necessary goods - this includes those involved in food production, processing, distribution, sale and delivery as well as those essential to the provision of other key goods (for example hygienic and veterinary medicines).

Public safety and national security - this includes police and support staff, Ministry of Defence civilians, contractor and armed forces personnel (those critical to the delivery of key defence and national security outputs and essential to the response to the COVID-19 pandemic), fire and rescue service employees (including support staff), National Crime Agency staff, those maintaining border security, prison and probation staff and other national security roles, including those overseas.

Transport - this includes those who will keep the air, water, road and rail passenger and freight transport modes operating during the COVID-19 response, including those working on transport systems through which supply chains pass.

Utilities, communication and financial services - this includes staff needed for essential financial services provision (including but not limited to workers in banks, building societies and financial market infrastructure), the oil, gas, electricity and water sectors (including sewerage), information technology and data infrastructure sector and primary industry supplies to continue during the COVID-19 response, as well as key staff working in the civil nuclear, chemicals, telecommunications (including but not limited to network operations, field engineering, call centre staff, IT and data infrastructure, 999 and 111 critical services), postal services and delivery, payments providers and waste disposal sectors.

If workers think they fall within the critical categories above they should confirm with their employer that, based on their business continuity arrangements, their specific role is necessary for the continuation of this essential public service.

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Neuadd y Sir, Gaerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services, County Hall, Carmarthen,
Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English